

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 11-12-2023 am 7 o'r gloch

Minutes of the Full Council meeting held at the Town Council Chamber 11-12-2023 at 7pm

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Julie Edwards, Meg Roberts, Gordon Warren, Gerry Belanger, Noel Kerr, Gareth Thomas, Geraint Thomas, Cyng/Cllr Derek Owen, Cyng/Cllr Aled Morris Jones (hwyr/late)

Ymddiheuriadau/Apologies: Alan Wood, Llinos Knowles Williams, Nina Bulkeley, Liz Wood, Cyng/Cllr Aled Morris Jones (hwyr/late)

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans Thau (clerc/clerk), Aled Job (cyfieithydd/interpretation)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies

Bu Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod a croesawyd pawb yn bresennol.
Gareth Roberts chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Dim datganiadau newydd / No new declarations

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Bu cymeradwyo'r cofnodion, cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Heddlu – dim diweddariad, cytuno anfon copi o'r cofnodion at Gareth Parry, diolch iddo am fynychu'r cyfarfod a gofyn am ddiweddariad. Cytuno cysylltu a Trefi Mon i drefnu cyfarfod cyn gynted a phosib.

Police – no update, it was agreed to send a copy of the minutes to Gareth Parry and to thank him for attending the meeting and ask for an update. It was agreed to contact Trefi Mon to arrange a meeting as soon as possible.

4.2 Binau – Cafwyd ebost gan yr adran wastraff yn cydnabod bod angen glanhau'r ardal dan sylw ond yn dynodi na fydda posib gosod bin newydd. Meg Roberts a'r clerc i drafod ymhellach gyda'r swyddogion.

Bins – an e-mail had been received from the refuse department acknowledging the need to clean up the area concerned, but noting that a new bin would not be provided. Meg Roberts and the Clerk to discuss this further with the officers.

4.3 Llwybr Parys Farm – unrhyw ffurflenni wedi eu cwblhau i'r clerc erbyn diwedd yr wythnos er mwyn eu cyflwyno i CSYM

Parys Farm Path – all completed forms to be sent to the Clerk by the end of the week so that they can be forwarded to the IACC.

5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

5.1 Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Amlwch – Cafwyd grynoded gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod diweddar y corff. Nodwyd y gwahanol weithgareddau oedd yn cymryd lle a'r hyn oedd yn cael ei flaenoriaethu am weddill y flwyddyn.

Amlwch Primary School Governors – Myrddin Owens gave a summary of the last meeting of the governors. The various activities taking place and the priorities for the rest of the year were noted.

5.2 Treftadaeth - Cafwyd grynoded gan Gareth Roberts o gyfarfod a gynhaliwyd gyda cynrychiolwyr Hyfforddiant Parys a'r Ymddiriedolaeth Dreftadaeth i edrych sut byddai cydweithio a symud ymlaen os bydd llwyddo diogelu'r adeiladau ym Mhorth Amlwch.

Heritage – a summary was provided by Gareth Roberts of a meeting held with representatives of Parys Training and the Heritage Trust to look at how best to work together and move forward if the buildings at Amlwch Port are secured.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynoded o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Bu'r Pwyllgor gymeradwyo nifer o daliadau yn unol â'r arfer a bu cadarnhau balans y gwahanol gyfrifon er gwybodaeth. Ni derbyniwyd un rhwy geisiadau am arian. Nid oes diweddariad gan y cyfreithiwr, bu'r clerc gadarnhau anfon llythyr cofrestredig iddo yn gofyn am wybodaeth cyn cyfarfod mis Ionawr neu am gael dychwelyd dogfennau'r Cyngor.

Bu'r Cyngor gymeradwyo bod y clerc yn cael gweithio ar geisiadau grant ar ran Hyfforddiant Parys mewn ymdrech i ddiogelu arian i brynu a thrin yr adeiladau ym Mhorth Amlwch.

Cafwyd gadarnhad bod Myrddin Owens wedi cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth i CSYM ynglŷn â pherchnogaeth adeiladau ym Mhorth Amlwch.

Cadarnhawyd derbyn yr adroddiad flynyddol yn ôl gan yr archiwiliwr allannol yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi ei gwblhau. Rhoddwyd hawl i'r clerc ymateb i'r pwyntiau a godwyd a gofyn am fwy o wybodaeth

Myrddin Owens provided a summary of the meeting. The Committee approved a number of payments and the balances of the various accounts were confirmed for information. No requests for financial donations had been received. There was no update from the solicitor and the Clerk confirmed that a recorded delivery letter had been sent to him asking for an update for the January meeting or to return the Council's documents.

The Council approved the fact that the Clerk would be working on grant applications on behalf of Parys Training in an attempt to secure funding to buy and undertake work on the buildings in Amlwch Port.

It was confirmed that Myrddin Owens had submitted a freedom of information request to IACC in relation to the ownership of buildings in Amlwch Port.

The annual report had been returned from the external auditor confirming that the audit had been completed. Permission was given to the Clerk to respond to the points raised and to request further information.

7 Materion Cynllunio / Planning Matters

7.1 Bu ystyried y ceisiadau canlynol / *the following applications were considered:*

7.1.1 HHP/2023/201 Ty Golchi Pentrefelin – dim gwrthwynebiad / no objection

7.1.2 FPL/2023/347 Safle/Site 4, Stad Diwydiannol Amlwch Industrial Est – nodi bod angen codi ffens a phlannu coed aeddfed i guddio'r datblygiad / *noted that a fence and mature trees were required to screen the development*

7.1.3 Datblygiad Solar Maen Hir Solar Development
Bu gohurio'r drafpaeth nes diwedd y cyfarfod
The discussion was deferred to the end of the meeting

7.2 Cafwyd gwybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*
Dim/None

8 Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings

Cafwyd diweddariad gan Gareth Roberts. Nodwyd bod y clerc yn brysur gweithio ar geisiadau grant, gobeithir cyflwyno'r cyntaf cyn Nadolig. Cadarnhawyd bod trafodaethau a chyfarfodydd yn parhau i gymryd lle yn y cefndir. Gweler hefyd cyfarfodydd allanol uchod. Mae llythyrau o gefnogaeth wedi eu derbyn ynghyd a nifer o lofnodion ar ddeiseb yn y gymuned.

Os yn llwyddianus, gobeithir bydd yr Ymddiroedolaeth yn gallu gweithredu i gychwyn o'r Llofft Hwyliau tra bod edrych yn fwy manwl ar y gwariant fydd ei angen yn y Biniau. Bu Myrddin Owens ddiolch i Gareth Roberts am ddiogelu arian CSYM i dalu am yr archwiliadau ac adroddiadau perthnasol. Mae angen yr adroddiadau i gefnogi ceisiadau grant. Bu diolch hefyd i Derlwyn Hughes (Medrwn Mon) am ei gefnogaeth a'i fewnbwn i rannu gwybodaeth a phrofiad.

An update was provided by Gareth Roberts. He noted that the clerk was busy working on grant applications and the intention is to present the first application before Christmas. It was confirmed that discussions and meetings were still continuing to take place behind the scenes. Please also see the note on external meetings above. Letters of support have been received together with a number of signatures on a community petition.

If successful, the hope is that the Trust can start operating from the Sail Loft whilst more detailed research is conducted on the expenditure required for the Bins. Myrddin Owens thanked Gareth Roberts for securing funding from the IOACC to pay for the relevant inspections and reports which are required to support the grant applications. Derlwyn Hughes (Medrwn Mon) was also thanked for his support and input in sharing information and his experience.

9 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

- 9.1 Coed ger Maes Llwyn – bu tynnu sylw at bryderon trigolion Maes Llwyn a gofyn bod CSYM yn trefnu bod rhywun yn gwirio'r coed gyferbyn. Derek Owen i gysylltu a'r adran tai.

Trees near Maes Llwyn – the concerns of local residents in Maes Llwyn were raised and that the IOACC conducts a survey on the trees opposite. Derek Owen to liaise with the housing department.

- 9.2 Groeslon – bu Meg Roberts dynnu sylw bod arolygon ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar y byngalos wedi ei gwblhau a gwaith wedi ei gomisiynnu ond heb ei gwblhau. Gofynnwyd am ddyddiad ar gyfer y gwaith. Derek Owen i gysylltu a'r adran tai

Groeslon – Meg Roberts drew attention to the fact that surveys have been completed in relation to maintenance work on the bungalows and that relevant work had been commissioned but not completed. A date for the completion of the work was requested and Derek Owen to contact the housing department.

- 9.3 Garej Glanrhos – bu Gordon Warren dynnu sylw bod y safle yn parhau yn bryder ac yn beryglus. Cytuno byddai'r clerc yn cysylltu a Prif Weithredwr CSYM, adran gwarchod y cyhoedd a chopi i'r tri aelod lleol a'r perchennog. Mae trafodaethau wedi bod yn y gorffennol ond mae angen twtio a diogelu'r safle.

Glanrhos Garage – Gordon Warren stated that the area was still a concern and dangerous. It was agreed that the Clerk contact IACC Chief Executive, the Public Protection Department with copies to the three local members and the owner. Discussions have taken place in the past but the site needs to be tidied and made safe.

10 Gohebiaeth / Correspondence

Bu unrhyw eitemau o ohebiaeth eu hanfon i'r aelodau drwy ebost wrth iddynt ddod law.
All items of correspondence are forwarded to the Members by e-mail as they are received.

7.1.3 Datblygiad Solar Maen Hir Solar Development

Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunwyd i wrthwynebu'r cynllun ar y seiliau canlynol:

Y Clerc i anfon yr ymateb i'r Arolygiaeth Gynllunio gyda chopi i Virginia Crosbie AS

1. Mae maint sylweddol y cynllun, a'i effaith ar yr amgylchedd a'r gymuned leol o gryn bryder.
2. Dylid rhoi blaenoriaeth i gapasiti ar y grid i ddatblygiadau ar raddfa llawer mwy megis Wylfa Newydd a fyddai'n creu miloedd o gyfleon wrth ei hadeiladu a channoedd o swyddi parhaol yn dilyn hynny, heb son am yr effaith bositif ar y ddolen gyflenwi a chontractwyr lleol. Mae profiad cyn belled yn dangos nad ydy datblygiadau cynaliadwy yn cynnig nifer uchel o gyfleon cyflogaeth parhaol.

3. Pryder y bydd tir amaethyddol da sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd yn cael ei gollu pan y gellid defnyddio tir o safon is, safleoedd tir llwyd ac adeiladau ar eu cyfer. Mae'r tir dan sylw yn dir amaethyddol ffrwythlon sydd wedi ei amgylchynu gan dai.
4. A fydd unrhyw gartrefi a effeithir arnynt gan y datblygiad yn cael iawndal naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfer lleihad mewn gwerth, ansawdd byw, effaith ar iechyd, colli amwynder gan gynnwys gweledded a'r adlewyrchiadau cryf o hirbell.
5. Colli incwm a chyflogaeth trwy gyfleon twristiaeth – mae Gogledd Môn yn gartref i nifer o atyniadau ymwelwyr a llefydd iddynt aros.
6. Pryder y gellir gosod cynsail bwriadol ar gyfer datblygiadau ynni eraill ar raddfa fawr fyddai'n cael eu penderfynu arnynt gan Lywodraeth Cymru trwy'r Arolygiaeth Gynllunio ac felly'n osgoi Cyngor Ynys Môn gan lesteirio llais pobl leol.
7. Mae gan Ogledd Môn a Gogledd Cymru brofiad o brosiectau ynni ar raddfa fawr. Mae'n hanfodol creu cyfleon uniongyrchol i gael cyflogaeth hir dymor ac yn anuniongyrchol trwy gonacontractwyr ar y safle a'r gadwyn gyflenwi. Mae cynnig cyfleon hyfforddiant yn hanfodol.
8. Mae cynnig gwaith a chyfleon hyfforddiant yn hanfodol i greu economi gytbwys, i leihau y nifer o bobl ifanc sydd efo sgiliau rhag gadael yr ynys ac i warchod yr iaith Gymraeg.
9. Mynegwyd pryder hefyd o ran oes y paneli solar a'r deunyddiau a ddefnyddir i'w cynhyrchu yn ogystal â sut y caiff hen baneli eu gwaredu ynghyd â'r isadeiledd Mynegwyd pyder hefyd mewn perthynas â'r deunyddiau a ddefnyddir i greu y batris ac os ydynt yn cael eu cyrchu mewn modd cynaliadwy. Petai'r datblygiad yn mynd rhagddo bydd angen cael sicrwydd y bydd y safle yn cael ei droi yn ôl i'w gyflwr presennol gan gadw y topograffi a'r edrychiad presennol

The clerk to submit the response to the Planning Inspectorate with a copy to Virginia Crosbie MP:

1. *The sheer size of the proposal, its impact on the local environment and community is of great concern.*
2. *Priority for Grid Capacity should be given to a large-scale development such as Wylfa Newydd that would bring with it thousands of construction opportunities and hundreds of permanent employment opportunities thereafter notwithstanding a positive impact on the supply chain and local contractors. Experience to date shows that renewable development does not offer permanent employment opportunities of scale.*
3. *Concern that good quality agricultural land used for food production is being lost to energy development where lower grade land, brown field sites and buildings could host panels. The land in question is productive agricultural land surrounded by housing.*
4. *Will homes affected by the development directly or indirectly be compensated for loss of value, quality of life, impact on health, loss of amenity including visibility and glare from further afield*
5. *Loss of income and employment from tourism opportunities – North Anglesey hosts a number of visitor attractions and accommodation*
6. *Concern that precedent will be set for further large-scale energy developments to bypass Anglesey County Council and Welsh Government for approval via the Planning Inspectorate, seen as taking away the voice of the local people.*
7. *North Anglesey and North Wales have experience of large-scale projects, it is essential to provide long term employment opportunities directly, indirectly via contractors on site, and the supply chain. Training opportunities are essential.*
8. *Employment and training opportunities are essential to grow a balanced economy, to reduce the outward migration of skilled young people from the island and to maintain and safeguard the Welsh Language.*
9. *Concern was noted with regard to the longevity of the solar panels, the materials used for manufacture, and future disposal of spent panels and associated infrastructure. Concern was noted with regard to the materials used for production of the batteries and whether sustainably sourced. Should the proposal be developed, assurance is sought that the site be returned to its current state, retaining the natural topography and character.*

11 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn 23-1-2024 am 7yh.

Bu diolch i Myrddin Owens a Noel Kerr am y lluniaeth a bu'r cyfarfod orffen am 8.45yh

The next Full Council meeting will be held 23-1-2024 at 7pm.

Myrddin Owens and Noel Kerr were thanked for refreshments and the meeting closed at 8.45pm.

Gareth Winston Roberts OBE, Cadeirydd / Chair, Cyngor Tref Amlwch Town Council

